

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar
13 Ionawr 2020 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwyr:

Y Cyng. Bryan Apsley (Cadeirydd)
Gareth Owens, Dirprwy Glerc

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:

Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r gweithwyr
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Blythe Roberts, Undeb yr FBU

Yn cyngori

Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau

Yn cofnodi

Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aeldoau

YMDDIHEURIADAU

Ken Finch, Trysorydd; Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

3.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am aelodaeth o'r cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Grŵp Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru gyfan a Grŵp Swyddogion Pensiwn Tân Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr
- y diweddaraf am y seminar treth
- seiber-ddiogelwch
- datganiad blynyddol ac arolwg blynyddol y Rheoleiddiwr Pensiynau

- clinig pensiynau
- golwg gyffredinol ar fwletinau a chylchlythyrau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

3.2 O ran seiber-ddiogelwch, nodwyd bod modd diffinio seiber-risg yn fras fel y risg o golli, tarfu neu ddifrod i gynllun neu i'w aelodau o ganlyniad i fethiant ei systemau neu ei brosesau technoleg gwybodaeth. Mae'n cynnwys risigau i wybodaeth (diogelu data) a risgiau mewnol (e.e. oddi wrth staff) a risgiau allanol (e.e. hacwyr). Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau i ddatblygu seiber-gadernid ac mae wedi gweithio gyda'r holl bartïon perthnasol i ddiffinio ein ffordd o reoli'r risg hwn. Mae rheolaethau digonol yn bodoli i leihau'r risg o ddigwyddiad seiber, o ran systemau, prosesau a phobl. Nodwyd hefyd fod cynllunio parhad busnes yn digwydd er mwyn galluogi'r cynllun i fynd ati'n gyflym a diogel i ailafael mewn gweithrediadau os bydd digwyddiad.

3.3 Fy Mhensiwn Ar-lein – nodwyd bod nifer yr aelodau sydd wedi cofrestru ar y system yn dal yn isel er bod sawl ymgyrch gyhoedduswydd wedi cael eu cynnal i annog aelodau i edrych ar eu pensiwn ar-lein. Cadarnhaodd Blythe Roberts a Duncan Stewart-Ball y byddant yn parhau i atgoffa'r aelodau ei bod yn bwysig cofrestru ar y system.

3.4 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

4 Y DIWEDDARAF AM GYNLLUN PENSIWN DYFED (GWEINYDDWR Y CYNLLUN)

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynglŷn â gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed.

4.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd fod y cynllun yn cael ei weinyddu'n iawn, ac roedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- y diweddaraf am faterion rheoleiddio
- seiber-ddiogelwch
- e-gyfathrebu
- ailgysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig
- adroddiadau ansawdd data
- apeliadau
- achosion o dorri'r rheolau
- fy mhensiwn ar-lein
- llif gwaith.

4.3 Cafodd yr Aelodau wybod am y datblygiadau diweddaraf yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl yn achosion McCloud a Sergeant o ran yr amddiffyniadau trosiannol yng nghynllun 2015 a oedd yn

camwahaniaethu'n angyfreithlon ar sail oedran. Nodwyd bod disgwyl cynnal ymgynghoriad yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ar y penderfyniad arfaethedig.

4.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 SESIWN HYFFORDDIANT AR SEIBER-DDIOGELWCH

5.1 I ymateb i gais gan aelodau mewn cyfarfod blaenorol, rhoddodd [REDACTED] o'r adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i geisio diogelu'r sefydliad rhag seiber-droseddau.

5.2 Mae'r adran TGCh yn defnyddio amrywiaeth o arferion i ddiogelu'r sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio'r Datrysiad Gwrth-feirws diweddaraf (McAfee); annog cyfrineiriau cryf; sicrhau bod pob meddalwedd yn cael ei ddiweddarau, a monitro a hidlo pob neges e-bost sy'n cyrraedd.

5.3 Cafodd yr aelodau wybod am y cynllun Cyber Essentials, sef cynllun sy'n cael cefnogaeth y Llywodraeth a'r diwydiant i helpu sefydliadau i'w diogelu eu hunain rhag bygythiadau cyffredin ar-lein. Er mwyn cael ei ardystio, mae GTAGC wedi cyflwyno atebion i gwestiynau sy'n seiliedig ar ddiogelwch sefydliadau, polisiau a gweithdrefnau. Yn dilyn canlyniad yr holiadur, bydd GTAGC yn canolbwyntio ar feysydd allweddol.

5.4 Diolchodd y Cadeirydd i [REDACTED] am y cyflwyniad a oedd yn llawn gwybodaeth, yna **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 DADANSODDI ANGHENION HYFFORDDI A GWYBODAETH

6.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y ffurflen dadansoddi anghenion hyfforddiant a gwybodaeth y mae'n rhaid ei llenwi a'i dychwelyd ati hi erbyn 1 Mawrth bob blwyddyn.

6.2 Nodwyd bod dyletswydd statudol ar y Rheoleiddiwr Pensiynau i gadw golwg rheoleiddiol dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ac mae'n monitro chwe phroses allweddol fel rhan o'i arolwg blynyddol o lywodraethu a gweinyddu. Defnyddir y prosesau allweddol hyn i ddangos perfformiad cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus.

6.3 Un o'r prosesau allweddol yw gallu asesu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i redeg y Cynllun Pensiwn

Lleol yn iawn. Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gael cynllun cadarn i sicrhau bod gwaith gwerthuso rheolaidd yn digwydd ar y sgiliau sydd eu hangen i redeg y cynllun yn effeithlon. Felly, gofynnwyd i'r Aelodau lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd at y Rheolwr Pensiynau erbyn 1 Mawrth 2020 er mwyn bodloni'r gofyniad dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys y ffflen dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth.**

7 SESIWN HYFFORDDI AR BENSIYNAU O DDWY FFYNHONNELL

7.1 Rhoddodd y Rheolwr Pensiynau sesiwn hyfforddi ar bensiynau o ddwy ffynhonnell.

7.2 Cafodd yr Aelodau wybod y gallai pensiwn o ddwy ffynhonnell, a elwir hefyd yn rheol dau bensiwn, fod yn berthnasol os yw aelod o'r cynllun pensiwn wedi cael gostyngiad yn ei gyflog pensiynadwy. Mae'r rheol yn berthnasol i aelodau o gynlluniau 1992 a 2007. Mae rheoliadau'n diogelu aelodau sydd wedi cael gostyngiad yn eu cyflog, naill ai oherwydd newid swydd neu oherwydd gostyngiad mewn elfen o gyflog pensiynadwy yn gynharach yn eu gyrfa. Mae'r cyfrifiad yn cael ei weithio allan ar adeg ymddeol.

7.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Pensiynau am y cyflwyniad, yna **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 HER GYFREITHIOL I AMDDIFFYNIAD TROSIANNOL

8.1 Cafodd yr Aelodau wybodaeth am y sefyllfa bresennol o ran yr her gyfreithiol i'r amddiffyniad trosiannol i aelodau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 ar ôl i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 gael ei gyflwyno.

8.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Llys Apêl, yn Rhagfyr 2018, wedi canfod bod yr amddiffyniadau trosiannol i aelodau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 wedi camwahanu'n anghyfreithlon ar sail oedran a chafodd yr achos ei ddychwelyd i'r Tribiwnlys Cyflogaeth er mwyn i hwnnw bennu'r cywiriad. Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd gorchymyn interim ei sefydlu i glymu'r partïon tan fis Gorffennaf 2020 oherwydd dyna pryd mae'r Gorchymyn yn rhagweld y dylid datrys y cywiriad terfynol. Ond dylid nodi y gallai fod cryn amser cyn rhoi'r cywiriad ar waith hyd oed ar ôl cael penderfyniad terfynol.

8.3 Yn dilyn yr achos, pan fo cais yn dod i law am ymddeoliad ar sail afiechyd, mae angen i'r ymgeisydd gael ei asesu nawr o dan reolau 1992 a rheolau 2015. Nid yw adolygiad cychwynnol o'r ymddeoliadau

ar sail afiechyd ers cyflwyno cynllun 2015 wedi canfod unrhyw ymddeoliadau sy'n gofyn am ymchwiliad pellach.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

9 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN – Y DIWEDDARAF AR LAFAR

- 9.1 Aeth y Cyng. Apsley, PSTC Fairhead a PSC MacArthur i'r cyfarfod diwethaf o Fwrdd Cyngori'r Cynllun ar 31 Hydref. Ymysg y materion a drafodwyd roedd dyfarniad cyfreithiol yr Uche Lys, y diweddaraaf gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r rhesymau pam mae pobl yn dewis optio allan o ymuno â'r cynllun pensiwn. Bu'r Bwrdd yn edrych ar gylchoedd gorchwyl y tri ATA, a da oedd nodi bod fersiwn ATA Gogledd Cymru yn gynhwysfawr ac nad oedd angen ei ddiwygio.

10 COFRESTR RISGIAU – MAES RISG 2 ARIANNOL

- 10.1 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn argymhell bod aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystyried ac yn adolygu eu Cofrestr Risgiau yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd. Cytunwyd yn flaenorol i gynnal adolygiad treiglol o feysydd risg penodol, felly cafodd y maes risg ariannol ei gyflwyno yn y cyfarfod er mwyn ei ystyried.
- 10.2 Ychwanegwyd un risg at y gofrestr risgiau ariannol yn ddiweddar, sef penderfyniad y llys apêl yn achos McCloud a Sargeant ar fater camwahaniaethu ar sail oedran. Caiff hyn ei fonitro, a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf.
- 10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r Maes Risg Ariannol ar y Gofrestr ar gyfer 2019-20, ac y bydd unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau yn cael eu hymgorffori yn y gofrestr ac y bydd y ddogfen diwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

11 POLISI GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

- 11.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r polisi diwygiedig ar wrthdaro rhwng buddiannau, er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau.
- 11.2 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol fod rhaid i bob awdurdod gweinyddu gael proses sy'n galluogi aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol i ganfod, monitro a rheoli unrhyw achosion o wrthdaro rhwng buddiannau, gan gynnwys gwrthdrawiadau posibl. Mae rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau yn allweddol er mwyn llywodraethu cynllun yn dda.
- 11.3 Nodwyd y dylai'r broses gynnwys y rheolaethau canlynol:

- cytuno ar bolisi gwrthdrawiadau sy'n nodi'r dull a ddilynir gan y Bwrdd Pensiwn Lleol i ddelio â gwrthdrawiadau – dylai hyn ymdrin â'r broses o ganfod a monitro gwrthdrawiadau ac amlinellu dewisiadau ar gyfer rheoli'r rhain
- cofrestr buddiannau ar gyfer cofnodi pob gwrthdrawiad gwirioneddol neu bosibl
- datgeliadau pryd mae aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu penodi a datgeliadau sy'n mynd ymlaen cyn gynted ag y maent yn codi, a datgeliadau ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol
- rhag-gynllunio i ganfod gwrthdrawiadau a allai ddigwydd yn y dyfodol a dewisiadau sydd ar gael i reoli'r rhain.

11.4 **PENDERFYNWYD mabwysiadu'n ffurfiol y polisi diwygiedig ar wrthdaro rhwng buddiannau, a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

12 CYFEIRIO MATERION I'R ATA LLAWN

- 12.1 Cytunwyd i gyfeirio'r polisi gwrthdaro rhwng buddiannau i'r ATA llawn, a hefyd ddiweddariad ar her gyfreithiol McCloud a Sargeant.

13 UNRHYW FATER ARALL

- 13.1 Dim.